

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

IS-DDEDDFWRIAETH

2006 Rhif 24

DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL 1977

CYFARWYDDIADAU I
FYRDDAU IECHYD LLEOL
AC YMDDIRIEDOLAETHAU
GIG YNG NGHYMRU 2006

Wedi'u gwneud

3 Ebrill 2006

Yn dod i rym

3 Ebrill 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16BB(4), 17(1), 97F(8) a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(1) drwy hyn yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol –

Cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Daw'r cyfarwyddiadau hyn i rym ar 3 Ebrill 2006 ac maent yn gymwys i bob Bwrdd Iechyd Lleol a phob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn —

ystyr “y Prif Gyfarwyddiadau” (*“the Principal Directions”*) yw'r Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ynghylch Trefniadau ar gyfer Ariannu Canllawiau Cloriannu Technoleg oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol er Rhagoriaeth Glinigol (NICE) dyddiedig 23 Hydref 2003(2).

-
- (1) 1977 (p.49). Amnewidwyd adran 17 gan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) (“Deddf 1999”) ac fe'i diwygiwyd gan Atodlen 5, Rhan I, paragraff 5(1) a (3), i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15). Ychwanegwyd adrannau 16BB a 97F gan adrannau 6 a 9 yn y drefn honno o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17). Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan adrannau 17 a 126(4), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Cynulliad gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, (O.S. 1996/672).
- (2) Diwygiwyd y Prif Gyfarwyddiadau gan Gyfarwyddiadau dyddiedig 23 Rhagfyr 2003, 4 Mawrth 2004 a 8 Chwefror 2005.

(4) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn diwygio'r Prif Gyfarwyddiadau.

Diwygio paragraff 3 o'r Prif Gyfarwyddiadau

2.—1) Ym mharagraff 3(2) o'r Prif Gyfarwyddiadau (Canllawiau Gwerthuso Technoleg Esempt) dileer is-baragraff (c).

(2) Ym mharagraff 3 o'r Prif Gyfarwyddiadau (Canllawiau Gwerthuso Technoleg Esempt) ar ddiwedd paragraff 3(1)(A) mewnosoder y canlynol fel paragraff 3(1)(B) —

“(1)(B) Mewn perthynas â Chanllawiau Gwerthuso Technoleg (Rhif 60) ar ddefnyddio modelau addysg-cleifion ar gyfer diabetes dyddiedig 2 Mai 2003, mae paragraff 2 o'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys ac eithrio y caiff y geiriau “ddyddiad nad yw'n hwyrach na thri mis o ddyddiad y Canllawiau Gwerthuso Technoleg hynny” eu disodli gan y geiriau “3 Ebrill 2006”.”

Llofnodwyd

Dyddiad 3 Ebrill 2006

BRIAN GIBBONS
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol